Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Maenofferen
# Blaenau Ffestiniog
# Gwynedd
# LL41 3DL

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2016

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 06/12/2016**

## Cyd-destun

Ysgol naturiol ddwyieithog, gymunedol o dan ofal awdurdod lleol Gwynedd yw Ysgol Maenofferen. Mae wedi ei lleoli yng nghanol tref Blaenau Ffestiniog. Mae'r ysgol yn gwasanaethu'r dref a'r ardal o'i chwmpas.

Mae 238 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol ac mae dosbarth ar gyfer pob blwyddyn ysgol, heblaw am un dosbarth sy'n cynnwys disgyblion Meithrin a Derbyn. Derbynnir disgyblion i'r ysgol yn rhan-amser yn y Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed, ac yn amser llawn yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed.

Mae tua 16% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae gan 22% o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol, ac mae ychydig iawn o ddisgyblion â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae 98% o'r disgyblion o gefndir ethnig gwyn Prydeinig. Daw tua 87% o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mai 2011. Penodwyd y pennaeth presennol i'w swydd ym Medi 2015.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Maenofferen yn 2016-2017 yw £3,542. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Ngwynedd yw £10,404 a'r lleiafswm yw £3,089. Mae Ysgol Maenofferen yn safle 72 o'r 93 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol
- medrau llafaredd rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol y dda
- rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu at ddibenion gwahanol yn llwyddiannus
- medrau rhif rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n llwyddiannus, ac erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio eu medrau rhif yn dda wrth ddatrys problemau
- ymddygiad disgyblion yn gryfder yn yr ysgol, gyda bron bob un yn gwrtais ac yn dangos parch at ei gilydd ac at oedolion
- rhan fwyaf y disgyblion yn dangos lefelau da o gymhelliant, diddordeb a balchder yn eu gwaith

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth glir a disgwyliadau uchel ar gyfer yr ysgol, gan lwyddo i greu cyfeiriad strategol clir a chadarn yn seiliedig ar godi safonau a lles disgyblion
- defnydd medrus o weithdrefnau rheoli perfformiad yn llwyddo i ddwyn y staff i gyfrif am eu perfformiad mewn perthynas â'r ddarpariaeth a deilliannau disgyblion yn llwyddiannus iawn
- llywodraethwyr yn herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn effeithiol
- trefniadau'r ysgol ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant yn gynhwysfawr, gyda phob aelod o gymuned yr ysgol yn cyfrannu at broses drylwyr o hunanarfarnu
- adroddiadau sy'n deillio o'r broses hunanarfarnu yn amlygu'n glir ansawdd y ddarpariaeth a safonau disgyblion, ynghyd ag amlinellu targedau ar gyfer gwelliant
- arweinwyr yn ailymweld â'r targedau yn rheolaidd er mwyn mesur cynnydd a sicrhau gwelliannau prydlon yn y ddarpariaeth a deilliannau disgyblion

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn defnyddio eu medrau rhifedd ar y lefel briodol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm

A2 Sicrhau bod her y gweithgareddau dysgu yn galluogi disgyblion o bob gallu i wneud cynnydd llawn

A3 Mynd i’r afael yn llawn â’r materion diogelu a amlygwyd yn ystod yr arolygiad

A4 Mireinio adroddiadau monitro i roi ffocws cliriach ar yr agweddau penodol sydd angen eu gwella

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae canlyniadau asesiadau sylfaen disgyblion ar fynediad i'r ysgol yn dangos bod gan lawer ohonynt fedrau sydd ychydig yn is na'r disgwyl am eu hoed. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Mae hwyrddyfodiaid a disgyblion ble mae'r Gymraeg yn iaith newydd iddynt, yn datblygu eu hyfedredd yn yr iaith yn gyflym iawn yn yr ysgol.

Mae medrau llafaredd y rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn dda. Yn unol â'u hoed a'u gallu, maent yn sgwrsio'n hyderus mewn amrywiaeth o gyd-destunau gan gyflwyno gwybodaeth a sôn am eu profiadau gyda threfn a dilyniant priodol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn dangos ymwybyddiaeth o ofynion cynulleidfa, drwy ddechrau amrywio llais, goslef ac ystum. Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n ofalus ac yn ymateb drwy ofyn cwestiynau pwrpasol a chynnig sylwadau sy'n berthnasol i gyfraniadau disgyblion ac oedolion eraill. Maent yn siarad yn rhwydd ac yn ddealladwy, gan ddefnyddio amrywiaeth cynyddol o ymadroddion a phatrymau brawddeg yn gywir.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau darllen yn dda. Mae'r cyfleoedd mwy rheolaidd i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen ddarllen drwy gyfrwng y Saesneg, yn cychwyn cynyddu eu hyfedredd wrth ddarllen deunydd amrywiol yn yr iaith. Gall y rhan fwyaf drafod ac ymateb i gwestiynau syml yn ymwneud â chynnwys eu llyfrau darllen yn llwyddiannus. Maent yn darllen geiriau cyfarwydd yn gywir gan wneud defnydd da o'u llais i gynnal diddordeb y gwrandäwr. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn glir gyda mynegiant priodol. Wrth ymateb i amrywiaeth eang o destunau, maent yn dangos dealltwriaeth o'r prif syniadau, y digwyddiadau a'r cymeriadau yn dda. Maent yn cywain gwybodaeth am bwnc penodol o ffynonellau gwahanol, gan ei defnyddio'n briodol yn ei gweithgareddau ar draws y cwricwlwm. Mae'r darllenwyr mwyaf hyderus yn deall amrywiaeth o destunau, gan ddewis a dethol y prif bwyntiau ac yn dangos ymwybyddiaeth dda o'r testunau drwy dynnu casgliadau rhesymol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu at ddibenion gwahanol, er enghraifft wrth drefnu eu sylwadau am debygrwydd a gwahaniaethau rhwng bywyd yn India a Chymru. Gall y rhan fwyaf ffurfio priflythrennau a llythrennau bach, sydd yn gyson o ran eu maint, yn gywir, a defnyddio priflythyren, atalnod llawn a gofynnod yn gywir. Mae llawer yn defnyddio cysyllteiriau i ysgrifennu brawddegau cyfansawdd, clir yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n ddychmygus, gan ddangos gafael sicr o ffurfiau ysgrifennu gwahanol. Gallant fynegi barn yn effeithiol, gan ddatblygu eu syniadau yn ddiddorol, er enghraifft wrth ystyried a ddylai NASA anfon gofodwyr i blaned Mawrth. Yn aml, maent yn dethol geiriau, ymadroddion a chystrawennau'n ofalus i greu effaith. Maent yn ystyried pwnc, pwrpas, a natur y gynulleidfa, er enghraifft wrth ddewis geirfa bynciol briodol mewn

hanes yn eu gwaith am yr Ail Ryfel Byd. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio paragraffau i gyflwyno'u gwaith yn drefnus ac mewn dilyniant synhwyrol. Mae llawer yn sillafu geiriau cyfarwydd a threiglo'n gywir, gan amlaf. Mae gan y rhan fwyaf lawysgrifen glir, ddarllenadwy ac maent yn cyflwyno eu gwaith yn daclus, gan amlaf. Fodd bynnag, ar frig y Cyfnod Sylfaen, a chychwyn cyfnod allweddol 2, yn yr ychydig o achosion ble mae gorddefnydd o daflenni gwaith parod, nid yw'r disgyblion yn ymestyn eu medrau ysgrifennu'n ddigon effeithiol ar draws y cwricwlwm.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'u medrau rhif yn llwyddiannus mewn gwersi mathemateg. Maent yn defnyddio strategaethau adio, tynnu, rhannu a lluosi syml yn gywir, ac mae ganddynt wybodaeth dda am nodweddion siapiau gwahanol ac amser. Mae llawer o ddisgyblion yn cychwyn defnyddio eu medrau rhifedd yn briodol mewn meysydd eraill, fel gwyddoniaeth a hanes, er enghraifft maent yn creu siartiau a graffiau cywir i gofnodi lliwiau ceir sy'n teithio drwy Blaenau Ffestiniog. Serch hynny, nid ydynt yn cymhwyso eu medrau rhifedd mewn digon o gyd-destunau amrywiol i ddatrys problemau perthnasol bywyd go iawn.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio strategaethau addas ar gyfer datrys problemau rhifedd, ac yn cyflwyno canlyniadau yn systematig. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio eu dealltwriaeth o werth lle i luosi a rhannu rhifau cyfan â 10 a 100. Maent yn casglu data yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm, gan lunio a dehongli diagramau amlder a graffiau bar a llinell cywir. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio eu medrau rhif yn dda wrth ddatrys problemau arian, er enghraifft wrth gyfrifo cost ymweld â gêm bêl-droed yn Llundain.

Mae medrau TGCh llawer o ddisgyblion yn datblygu'n briodol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, gall llawer ddefnyddio meddalwedd arlunio er mwyn cyflwyno eu syniadau a'u darluniau yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf yn arddangos data ar ffurf graffiau bar syml mewn arolwg lliw llygaid. Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, gall llawer gynhyrchu a defnyddio cronfeydd data i ofyn ac ateb cwestiynau am afonydd lleol. Gall llawer gyflwyno gwybodaeth a syniadau'n effeithiol, trwy gyfuno testun, delweddau, a graffiau, er enghraifft wrth ystyried trychineb yn Nepal. Mae'r rhan fwyaf yn gwybod sut i ddefnyddio TGCh yn ddiogel, ac yn ystyried y peryglon a'r risgiau yn eu gweithgareddau. Er enghraifft, maent yn rhannu gwybodaeth yn ddiogel â phobl eraill, gan gynnwys defnyddio e-bost, ac yn deall pwysigrwydd peidio â datgelu manylion personol i bobl ddieithr.

Yn y Cyfnod Sylfaen dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad disgyblion ar y deilliant disgwyliedig mewn llythrennedd wedi gosod yr ysgol yn is na'r canolrif o gymharu ag ysgolion tebyg. Mewn mathemateg dros yr un cyfnod, mae'r perfformiad wedi amrywio rhwng y 50% uwch a'r 50% is. Ar y deilliant uwch, mae'r perfformiad yn amrywio dros yr un cyfnod.

Yng nghyfnod allweddol 2 dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yn y pynciau craidd ar y lefel ddisgwyliedig yn amrywio gan amlaf rhwng y 50% is a'r 50% uwch o'u cymharu ag ysgolion tebyg. Ar y lefel uwch, mae tueddiad i lawr dros yr un cyfnod.

Mae mwyafrif o'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau personol.  Nid oes patrwm amlwg o wahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched.  Mae rhan fwyaf y disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd da yn unol â'u targedau.

**Lles:  Da**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn hyderus y byddai staff yn delio'n effeithiol ag unrhyw fygythiadau i'w hiechyd a'u lles.  Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd bwyta'n iach, yfed dŵr yn rheolaidd, a'r angen i ymarfer y corff.

Un o gryfderau'r ysgol yw ymddygiad da bron pob disgybl.  Maent yn gwrtais ac yn dangos parch at ei gilydd ac at oedolion.  Mae'r disgyblion yn ofalgar iawn o'i gilydd, ac yn cymryd eu cyfrifoldebau fel y cyfeillion cae chwarae o ddifri.  Mae medrau cymdeithasol a medrau bywyd bron pob disgybl yn dda.  Maent yn ddysgwyr gweithgar a brwdfrydig, sy'n cydweithio'n gytûn ac yn cadw'n ddygn ar dasg dros gyfnodau estynedig.  Mae'r rhan fwyaf yn dangos lefelau da o gymhelliant, diddordeb a balchder yn eu gwaith.

Mae gan yr holl ddisgyblion ymglymiad cryf i'r ysgol a'r staff, ac wrth iddynt aeddfedu, maent yn fodlon ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol drwy nifer o bwyllgorau ysgol gwahanol.  Mae'r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco yn cyflawni eu gwaith yn gydwybodol ac mae gan aelodau lais dylanwadol yn yr ysgol.  Mae disgyblion yn cyfrannu eu syniadau yn synhwyrol am gynnwys thema gyfredol eu dosbarth.  Mae'r arfer o gymryd rhan mewn cyngherddau a chwaraeon yn y pentref yn cryfhau ymglymiad disgyblion i'w cymuned leol yn fuddiol.  Maent yn trefnu gweithgareddau codi arian i brynu offer i'r ysgol ac i gefnogi amryw elusennau.

Mae presenoldeb rhan fwyaf y disgyblion yn yr ysgol yn dda ac maent yn cyrraedd yn brydlon ar gychwyn y dydd.  Gan amlaf dros y pedair blynedd diwethaf, mae cyfartaledd presenoldeb yr ysgol wedi bod yn y 25% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg.

| **Cwestiwn Allweddol 2:  Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu:  Da**

Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o brofiadau dysgu cyfoethog sydd yn ennyn diddordeb disgyblion ac sy'n ymateb i ofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol.  Mae'r ysgol yn trefnu a chynllunio yn llwyddiannus, fel bod disgyblion yn ymweld â'r gymuned leol ac yn ehangach yn rheolaidd.  Mae hyn yn cyfoethogi'r cwricwlwm yn dda ac yn gwneud cyfraniad effeithiol i brofiadau dysgu'r disgyblion.

Ar y cyfan, mae athrawon wedi ymgorffori'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn llwyddiannus yng nghynllluniau gwaith yr ysgol.  Mae cynlluniau gwaith tymhorol yn gynhwysfawr, ac yn hyrwyddo dilyniant a pharhad yn y dysgu.  Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymhwyso ystod o fedrau iaith, a thechnoleg gwybodaeth, mewn amrywiaeth o gyd-destunau gwahanol ar draws y

cwricwlwm. Yng nghyfnod allweddol 2, mae cyfleoedd llwyddiannus i ddisgyblion gymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd mewn cyd-destunau diddorol, er enghraifft wrth gasglu data am losgfynyddoedd y byd. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddefnyddio o eu medrau llythrennedd ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r ymwybyddiaeth o berthyn i'r gymuned, a'r dimensiwn Cymreig, yn agwedd gref o'r ysgol. Mae ethos Cymreig cryf iawn, gyda'r ddarpariaeth yn hybu'r disgyblion i wneud defnydd llawn o'r Gymraeg ym mhob agwedd o fywyd ysgol. Mae ymweliadau addysgol a'r defnydd o'r gymuned leol ac o arlunwyr ac artistiaid Cymru, yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn effeithiol iawn.

Mae addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn cael ei chyflwyno drwy'r cwricwlwm a thrwy weithgarwch y cyngor ysgol a'r cyngor eco yn dda. Mae'r ysgol yn cynnig ystod o brofiadau gwerthfawr sy'n sicrhau bod gan ddisgyblion ymwybyddiaeth werthfawr am faterion ailgylchu. Mae cyfleoedd buddiol i godi ymwybyddiaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang drwy wneud gwaith dosbarth a chefnogi nifer o elusennau gwahanol, er enghraifft drwy godi arian yn dilyn y daeargryn yn Nepal.

**Addysgu: Da**

Mae perthynas waith gynhyrchiol rhwng y staff a'r disgyblion. Mae pob un o'r staff addysgu yn defnyddio strategaethau rheoli ymddygiad yn dda sy'n creu amgylchedd o barch ac yn meithrin dysgu yn effeithiol. Mae'r staff yn hyrwyddo Cymraeg cywir yn gyson, sy'n cyfrannu'n gref at ethos Cymreig yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol gyfoes ac yn defnyddio ystod dda o strategaethau effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o wersi wedi eu cynllunio'n fanwl, gyda chyfleodd pwrpasol ar gyfer dwyn i gof ddysgu blaenorol y disgyblion, ynghyd â thasgau sy'n ennyn eu diddordeb. Fodd bynnag, yn yr ychydig o adegau ble mae'r addysgu yn llai effeithiol, nid yw disgwyliadau athrawon yn ddigon uchel gan nad yw'r gweithgareddau dysgu yn herio pob disgybl i gyflawni hyd eithaf eu gallu. Nid oes cyflymder addas i ychydig iawn o wersi.

Mae cyfleoedd da i ddisgyblion hunanasesu ac asesu gwaith eu cyfoedion. Mae athrawon yn rhoi adborth defnyddiol i ddisgyblion am eu gwaith. Mae hyn yn cynnwys ymyrryd ar adegau priodol yn ystod gwersi a rhoi cymorth effeithiol i bob disgybl drwy farcio gwaith yn synhwyrol. Ble mae'r sylwadau yn fwyaf effeithiol, mae athrawon yn nodi cryfderau'r gwaith ac yn amlygu'n glir i ddisgyblion pa elfen o'r dasg y dylid ei gwella. Yn yr ychydig sylwadau marcio sy'n llai effeithiol, er bod athrawon yn cynnig gwelliannau, nid ydynt yn cyfeirio eu sylwadau'n tuag at feini prawf y wers.

Mae gan athrawon ddealltwriaeth gref o safonau disgyblion yn eu dosbarth. Mae portffolios cyfoes o waith disgyblion yn helpu athrawon i lefelu a safoni gwaith yn gywir. Maent yn defnyddio gwybodaeth olrhain cynnydd disgyblion yn fedrus gan deilwra cymorth ychwanegol effeithiol i ddisgyblion, er enghraifft wrth ddarparu cymorth ar gyfer gwella medrau darllen a medrau llafaredd.

Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni yn darparu gwybodaeth fuddiol iddynt am ddatblygiad a chynnydd eu plant.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a gofalgar. Mae'n hyrwyddo iechyd a lles disgyblion yn llwyddiannus ac yn cynnig cyfleoedd amrywiol i hybu iechyd a ffitrwydd disgyblion y tu mewn a thu allan i oriau'r ysgol. Mae trefniadau effeithiol ar gyfer hyrwyddo disgyblion i fwyta ac yfed yn iach.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y parch a ddangosant at ei gilydd a thuag at oedolion. Mae ystod dda o weithgareddau sy'n hybu disgyblion i fyfyrio. Mae gweithgareddau cwricwlaidd addas yn eu hannog i ddatblygu synnwyr o chwilfrydedd trwy fyfyrio ar eu bywydau a'u credoau eu hunain a phobl eraill. Mae gwasanaethau ysgol ac amseroedd cylch yn rhoi cyfleoedd buddiol i ddisgyblion feithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, goddefgarwch, tegwch a pharch am wirionedd a chyfiawnder yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf a chefnogol gyda nifer o wasanaethau arbenigol ac asiantaethau allanol, fel yr heddlu, seicolegwyr a'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae staff yn cydweithio'n llwyddiannus â'r asiantaethau hyn er mwyn sicrhau cymorth ac arweiniad o ansawdd uchel i ddisgyblion a rhieni a chefnogi lles disgyblion yn dda.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn eu galluogi i fanteisio'n llawn ar y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn drwyadl. Mae staff yn adnabod anghenion disgyblion yn gynnar ac yn cynnig cefnogaeth ychwanegol a gweithredu rhaglenni cymorth pwrpasol ac effeithiol. Maent yn nodi targedau clir a chyraeddadwy yn y cynlluniau addysg unigol ac mae'r rhieni a'r disgyblion yn cael eu cynnwys yn y broses o'u llunio a'u hadolygu.

Nid yw holl drefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion gan fod rhai agweddau yn achosi peth pryder.

## Yr amgylchedd dysgu: Da

Nodwedd arbennig o Ysgol Maenofferen yw ei hethos teuluol a chroesawgar. Mae'r ysgol yn gymuned gyfeillgar gyda phwyslais amlwg ar ofal a pharch. Mae'r ystod o bolisïau a gweithdrefnau manwl yn hybu cydraddoldeb yn effeithiol ac yn annog mynediad cyfartal i'r holl ddisgyblion i'r ddarpariaeth lawn. Mae'r ysgol yn darparu trefniadau da ar gyfer mynediad i ddisgyblion ag anableddau ac yn ymdrechu i gynnwys pob disgybl ym mhob gweithgaredd, er enghraifft mewn twrnamaint pêl-droed.

Mae ystod amrywiol o offer ac adnoddau o ansawdd da yn yr ysgol, ac yn arbennig ar gyfer TGCh a datblygu medrau darllen disgyblion. Mae amrywiaeth eang o arddangosfeydd hyfryd o waith llaw'r disgyblion ar y coridorau a'r ystafelloedd dosbarth, gyda hysbysfyrdd yn clodfori eu llwyddiannau yn dda. Mae'r ysgol yn dathlu amrywiaeth ac yn rhoi bri ar lwyddiannau'r disgyblion sydd yn cefnogi'r addysgu, yn ychwanegu at yr ethos cartrefol ac yn hybu ymddygiad da.

Mae'r ysgol yn adeilad gwasgaredig sydd yn her i'w goresgyn. Mae rhai ystafelloedd dosbarth yn gyfyng, ond gwneir pob ymdrech i ymdopi â natur yr adeilad gan gynnig cyfleusterau derbyniol ar gyfer nifer y disgyblion, ac wrth wneud defnydd pwrpasol ohonynt. Mae'r safle a'r adeilad yn darparu amgylchedd ysgogol ar gyfer chwarae a dysgu, gan gynnwys offer amrywiol i ddisgyblion adeg amser egwyl. Mae athrawon wedi datblygu ardal allanol y Cyfnod Sylfaen yn briodol ac mae'n cynnwys offer diddorol sydd yn ehangu'r profiad dysgu yn fuddiol.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir a disgwyliadau uchel ar gyfer yr ysgol. Mae wedi rhannu'r weledigaeth hon yn effeithiol gyda disgyblion, staff, rhieni a llywodraethwyr. Ers ei benodiad, mae wedi llwyddo i greu cyfeiriad strategol clir a chadarn i'r ysgol yn seiliedig ar godi safonau a lles disgyblion. Mae ethos o gydweithio agos yn bodoli rhwng yr uwch dîm reoli a'r holl staff sy'n cefnogi'r pennaeth yn dda. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth a deilliannau ar draws yr ysgol.

Mae strwythur staffio'r ysgol yn bwrpasol ac effeithiol, gyda phob aelod o staff â swydd ddisgrifiad manwl. Mae hyn yn eu galluogi i gymryd cyfrifoldebau am agweddau penodol o waith yr ysgol. O ganlyniad, maent yn cymryd rôl weithredol wrth ddatblygu'r ysgol ymhellach. Un o gryfderau'r arweinyddiaeth yw'r ffordd mae'r pennaeth yn sicrhau atebolrwydd pob aelod o staff. Drwy'r defnydd medrus o weithdrefnau rheoli perfformiad, mae'n llwyddo i ddwyn staff i gyfrif am eu perfformiad mewn perthynas â'r ddarpariaeth a deilliannau disgyblion yn llwyddiannus iawn. Mae cyswllt amlwg rhwng y prosesau hyn a blaenoriaethau'r ysgol.

Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Er enghraifft, mae'r defnydd o'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn datblygu'n briodol ac mae'r datblygiad o'r iaith Gymraeg yn gryfder amlwg drwy'r ysgol, sy'n cryfhau medrau disgyblion yn yr iaith yn dda.

Mae'r corff llywodraethol yn chwarae rhan flaenllaw wrth osod cyfeiriad strategol clir i'r ysgol. Mae gan aelodau'r corff ddealltwriaeth drwyadl o safonau'r ysgol a sut mae'n cymharu ag ysgolion tebyg. Maent yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i gynnal teithiau dysgu, craffu ar waith disgyblion ac i drafod blaenoriaethau gydag aelodau o staff. O ganlyniad, mae ganddynt ymwybyddiaeth werthfawr o gryfderau'r ysgol a meysydd ar gyfer gwelliant. Mae hyn yn eu galluogi i herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn effeithiol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant yn gynhwysfawr. Mae pob aelod o gymuned yr ysgol yn cyfrannu at broses drylwyr o hunanarfarnu. Mae arweinwyr yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol yn fedrus i adnabod cryfderau'r ysgol a meysydd i'w gwella. Mae'r rhain yn cynnwys

dadansoddiad manwl o ddata, craffu ar waith disgyblion ac arsylwi gwersi. Mae'r adroddiadau sy'n deillio o'r broses yn amlygu'n glir ansawdd y ddarpariaeth a safonau disgyblion, ynghyd ag amlinellu targedau ar gyfer gwelliant. Mae arweinwyr yn ailymweld â'r rhain yn rheolaidd er mwyn mesur cynnydd. Mae hyn wedi arwain at welliannau yn y ddarpariaeth a deilliannau disgyblion yn brydlon. Er enghraifft, yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi gwella'r cyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n hyderus mewn ystod o ffurfiau. Er hyn, nid oes gan weithgareddau monitro ffocws digon miniog bob tro er mwyn arwain at welliannau mewn agweddau digon penodol o waith yr ysgol.

Rhoddir sylw gwerthfawr i farn staff, rhieni, llywodraethwyr a disgyblion fel rhan o'r broses hunanarfarnu. Mae'r ysgol yn defnyddio holiaduron yn fuddiol i ganfod eu barn am agweddau penodol o fywyd yr ysgol ac yn gweithredu ar argymhellion yn effeithiol. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd y mae'r ysgol wedi cynnwys disgyblion wrth wella'r ddarpariaeth yn ystod amseroedd chwarae, sydd wedi gwella ymddygiad.

Mae cyswllt amlwg rhwng gweithgareddau hunanarfarnu a blaenoriaethau yn y cynllun datblygu'r ysgol. Mae'r cynllun yn ddogfen weithredol sy'n canolbwyntio'n glir ar wella darpariaeth a chodi safonau. Mae'r camau gweithredu yn fanwl ac yn cysylltu â meini prawf llwyddiant yn briodol. Mae'r cynllun yn cynnwys amserlen gweithredu fanwl ac yn nodi cyfrifoldebau staff a chostau yn glir. Mae arweinwyr yn gwerthuso cynnydd yn erbyn blaenoriaethau yn rheolaidd. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar wella'r ddarpariaeth.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol ystod eang o bartneriaethau llwyddiannus sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion ac yn ymestyn eu profiadau dysgu'n fuddiol.

Mae gan yr ysgol berthynas glos gyda rhieni. Mae rhieni yn ymateb yn frwdfrydig i weithgareddau'r ysgol sydd yn eu galluogi i gyfrannu at ddysgu eu plant. Enghraifft effeithiol o hyn yw'r prosiect dysgu teulu. Mae'r gwaith hwn wedi cryfhau'r berthynas rhwng yr ysgol a'r cartref ac yn cynorthwyo teuluoedd i helpu eu plant gyda'u dysgu. O ganlyniad, mae'r ysgol wedi sefydlu clwb gwaith cartref sydd yn galluogi disgyblion i gael y cymorth ychwanegol yn ôl yr angen.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gyda nifer o asiantaethau allanol er mwyn gwella lles disgyblion. Er enghraifft, maent yn gweithio gyda dietegydd yn y gymuned i gynnal gwersi coginio i rieni yn yr ysgol. Mae hyn yn helpu rhieni i ddarparu bwyd iachus i'w plant ac yn cynyddu dealltwriaeth y disgyblion o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach.

Mae cysylltiadau buddiol yn bodoli rhwng yr ysgol a'r ysgol uwchradd. Mae trefniadau pontio effeithiol yn sicrhau bod disgyblion yn trosglwyddo'n esmwyth o'r ysgol gynradd i'r uwchradd. Mae gwaith safoni a chymedroli asesiadau athrawon yn drylwyr. Mae hyn yn sicrhau cywirdeb athrawon wrth asesu.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd gwerthfawr o'r arbenigedd sy'n bodoli yn y gymuned leol. Er enghraifft, mae'r ysgol yn gweithio gydag aelodau o randiroedd y pentref i ddatblygu gardd wyllt yn yr ysgol. Mae'r gwaith hwn yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddealltwriaeth disgyblion o sut i ofalu am y byd o'u cwmpas.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae arweinwyr yn defnyddio adnoddau’r ysgol yn bwrpasol i sicrhau awyrgylch dysgu effeithiol.  Maent yn adnabod cryfderau ac arbenigeddau staff yn llwyddiannus ac yn dyrannu cyfrifoldebau yn dda.  Gwneir defnydd medrus o gymorthyddion ar gyfer gweithredu rhaglenni ymyrraeth bwrpasol.  Mae’r rhaglenni hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau darllen a rhifedd disgyblion.  Mae trefniadau ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon yn bodloni gofynion statudol.

Mae’r ysgol yn datblygu’n gymuned ddysgu effeithiol.  Mae nifer o rwydweithiau dysgu o fewn yr ysgol a chydag ysgolion eraill yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i athrawon rannu arfer dda.  Er enghraifft, mae’r prosiect ar gyfer datblygu arweinyddiaeth strategol wedi arwain at gryfhau gweithdrefnau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant yn yr ysgol, ac ar draws y clwstwr.

Mae arweinwyr yn defnyddio prosesau rheoli perfformiad yn arbennig o dda ar gyfer adnabod anghenion staff.  O ganlyniad, maent yn cynnig hyfforddiant defnyddiol sydd yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion, er enghraifft wrth wella medrau ysgrifennu estynedig disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae gan yr ysgol gynllun manwl ar gyfer defnyddio’r Grant Amddifadedd Disgyblion. Mae’r ysgol defnyddio’r grant yn pwrpasol i godi safonau llythrennedd a rhifedd grwpiau penodol o ddisgyblion.  Mae’r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da tuag at eu targedau.

Mae’r pennaeth a’r corff llywodraethol yn monitro gwariant yn ofalus a thrwyadl.  Mae gwariant yr ysgol yn cysylltu’n dda â’r blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol.

O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6612221 - Ysgol Maenofferen**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 226 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 21.0 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 23 | 29 | 30 | 29 |
| | | | | |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 78.3 | 79.3 | 73.3 | 82.8 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 4 | 3 |
| | | | | |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 1 | * | * |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | 100.0 | * | * |
| Chwartel meincnod | * | 1 | * | * |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | 0.0 | * | * |
| Chwartel meincnod | * | 4 | * | * |
| | | | | |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 23 | 28 | 30 | 29 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 78.3 | 78.6 | 76.7 | 82.8 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 | 3 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 26.1 | 32.1 | 30.0 | 17.2 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 2 | 4 |
| | | | | |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 23 | 29 | 30 | 29 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 82.6 | 89.7 | 83.3 | 93.1 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 3 | 2 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 39.1 | 24.1 | 26.7 | 24.1 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 3 | 4 |
| | | | | |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 23 | 29 | 30 | 29 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 87.0 | 86.2 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 1 | 1 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 47.8 | 41.4 | 60.0 | 34.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 1 | 4 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6612221 - Ysgol Maenofferen**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 226 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 21.0 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 21 | 26 | 23 | 27 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 85.7 | 84.6 | 87.0 | 88.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 2 | 3 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 21 | 26 | 23 | 27 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 85.7 | 88.5 | 87.0 | 85.2 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 3 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 47.6 | 42.3 | 30.4 | 33.3 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 3 | 3 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 21 | 26 | 23 | 27 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 85.7 | 88.5 | 87.0 | 88.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 47.6 | 42.3 | 39.1 | 33.3 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 3 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 21 | 26 | 23 | 27 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 85.7 | 88.5 | 87.0 | 88.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 47.6 | 38.5 | 39.1 | 40.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 2 | 3 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 21 | 26 | 23 | 27 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 85.7 | 92.3 | 87.0 | 88.9 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 47.6 | 38.5 | 34.8 | 40.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 2 | 2 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 104 | 103<br>99%<br>98% | 1<br>1%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 104 | 103<br>99%<br>92% | 1<br>1%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 104 | 103<br>99%<br>97% | 1<br>1%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 104 | 103<br>99%<br>97% | 1<br>1%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 104 | 103<br>99%<br>96% | 1<br>1%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 104 | 100<br>96%<br>96% | 4<br>4%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 104 | 104<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 104 | 103<br>99%<br>98% | 1<br>1%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 104 | 102<br>98%<br>91% | 2<br>2%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 104 | 103<br>99%<br>95% | 1<br>1%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 104 | 100<br>96%<br>77% | 4<br>4%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 104 | 102<br>98%<br>84% | 2<br>2%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i’r holiadur i rieni

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 99 | 64 | 34 | 0 | 1 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 65% | 34% | 0% | 1% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 97 | 72 | 24 | 1 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 74% | 25% | 1% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 99 | 68 | 29 | 2 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 69% | 29% | 2% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 97 | 60 | 35 | 2 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 62% | 36% | 2% | 0% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 94 | 48 | 44 | 2 | 0 | 5 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 51% | 47% | 2% | 0% | | |
| | | 47% | 48% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 96 | 60 | 35 | 1 | 0 | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 62% | 36% | 1% | 0% | | |
| | | 61% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 99 | 69 | 28 | 2 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 70% | 28% | 2% | 0% | | |
| | | 65% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 93 | 54 | 37 | 2 | 0 | 6 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 58% | 40% | 2% | 0% | | |
| | | 49% | 43% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 97 | 61 | 33 | 3 | 0 | 2 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 63% | 34% | 3% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 97 | 66 | 31 | 0 | 0 | 2 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 68% | 32% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 97 | 62 | 34 | 0 | 1 | 2 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 64% | 35% | 0% | 1% | | |
| | | 66% | 32% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 89 | 58 | 29 | 2 | 0 | 8 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 65% | 33% | 2% | 0% | | |
| | | 56% | 39% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child’s progress. | 98 | 53 | 39 | 3 | 3 | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 54% | 40% | 3% | 3% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 98 | 65 | 30 | 3 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 66% | 31% | 3% | 0% | | |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 94 | 55 | 36 | 3 | 0 | 5 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 59% | 38% | 3% | 0% | | |
| | | 48% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 97 | 58 | 38 | 1 | 0 | 2 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 60% | 39% | 1% | 0% | | |
| | | 58% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 80 | 44 | 31 | 3 | 2 | 17 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 55% | 39% | 4% | 2% | | |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 94 | 60 | 32 | 2 | 0 | 5 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 64% | 34% | 2% | 0% | | |
| | | 54% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 97 | 66 | 30 | 1 | 0 | 1 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 68% | 31% | 1% | 0% | | |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Tony Bate | Arolygydd Cofnodol |
| Jonathan Cooper | Arolygydd Tîm |
| Meleri Cray | Arolygydd Lleyg |
| Rosemarie Wallace | Arolygydd Cymheiriaid |
| Gareth Roberts | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.